

UNED : Y FUWCH EIDION – FFRWYTHLONDEB

CYFLWYNIAD

Mae'n rhaid i'r fuwch gynhyrchu llo hyfyw bob 365 diwrnod os ydi hi'n mynd i fod yn broffidiol. Mae cyfnodau byr rhwng lloia a beichiogi, a chyfradd beichiogi uchel yn hanfodol, a'r ffordd orau i gyflawni hyn ydi maethu da, cyflwr corfforol da, iechyd da, canfod buwch yn gofyn tarw, diagnosis beichiogrwydd a chadw cofnodion manwl.

Darlun – Y Gylchred Fridio – HCC Gwneud y Gorau o'ch Gwartheg Sugno tud.8

CADW CYFNOD LLOIA TYNN

Bydd disgyblaeth dda wrth gadw at gyfnod tarwa, a didoli buchod sydd ddim yn beichiogi erbyn y dyddiad targed, yn ogystal â rheolaeth gyffredinol dda er mwyn cael cyfnod lloia tynn yn golygu :

- Llai o lafur adeg lloia
- Rheolaeth symlach buchod a lloi
- Pwysau diddyfnu'n cynyddu
- Mwy o batsys cyfartal lloi i'w gwerthu
- Llai o gostau a mwy o enillion » mwy o broffid

CYNYDDU CYFRADD BEICHIOGI

Mewn buchod 100 o fuchod, byddai beichiogiad o 60% ym mhob oestrws neu ofyn tarw yn golygu dim ond 3 swynog mewn cyfnod tarwa 12 wythnos (ond 16 swynog petai'r cyfnod yn tynhau i 6 wythnos, ac mae hyn yn tanlinellu un anfantais posib wrth geisio cael lloia tynn iawn). Byddai 50% a 40% beichiogrwydd yn golygu y byddai 6 a 14 swynog dros yr un 12 wythnos o gyfnod tarwa - sy'n tanlinellu gwerth beichiogrwydd da.

LLEIHAU'R CYFNOD RHWNG LLOIA A BEICHIOGI

Mae'r buchod sy'n lloia'n fuan yng nghyfnod lloia'r fuches wedyn yn beichiogi'n rhwyddach ac yn fwy llwyddiannus, gan fod ganddyn nhw fwy o amser i adfer eu hunain rhwng lloia a dechrau'r cyfnod bridio. Bydd patrwm lloia tynn yn golygu bod mwy o fuchod yn lloia yn y rhan gyntaf o'r cyfnod lloia, a byddant yn gyflo'n gynt ac yn rhwyddach, ac yn magu lloi trymach adeg diddyfnu gan eu bod yn hŷn.

RHESYMAU DROS FFRWYTHLONDEB GWael

- Cyflwr gwael yr heffer, fuwch (neu'r tarw) adeg gofyn tarw – rhaid i wartheg a heffrod fod yn y cyflwr gorau adeg tarwa, a'u porthi yn unol â hynny:
 - Lloia yn y gwanwyn – Sgôr Cyflwr Corfforol 2.5-3
 - Lloia yn yr hydref – Sgôr Cyflwr Corfforol 3
- Lloia anodd – bydd cyflwr anghywir adeg lloia, cyfnod cyfebru hir neu darw lloia anodd, yn gallu gwneud hi'n anodd i'r fuwch ddod ati ei hun erbyn y cyfnod tarwa nesaf
- Clefydau mewn buchod, heffrod neu darw
- Canfod gwael buchod yn gofyn tarw

CANFOD BUWCH YN GOFYN TARW

- Aflonydd
- Dringo ar fuchod eraill neu'n sefyll i gael ei dringo
- Bôn cynffon ac esgyrn pin wedi eu rhwbio a/neu fwd ar ei hochr
- Mwcws o'r fwfa

GWELLA FFRWYTHLONDEB BUWCH

- Canfod gwir achos y broblem
 - Diffwrwyth
 - Erthylid
 - Marw-enedigaeth
- Gwell porthiant ar ôl lloia
 - Egni – i gael y fuwch yn ôl i gyflwr gwell
 - Micro-faetholion e.e. copr, iodid, seleniwm – prawf gwaed os oes angen
- Bridio – er nad ydi o'n etifeddadwy iawn, gall oed lloia tro cyntaf, cyfnod rhwng lloia a bywyd hirhoedlog y fuches, i gyd fod yn nodweddion Gwerth Bridio Tybiedig (*EBV*) y tad neu'r fam sy'n dangos ffrwythlondeb uchel – gall ymnerth croesryw mewn buchod wedi eu croesfridio chwarae rôl hefyd
- Osgoi lloia anodd

- Cyflwr y fuwch adeg lloia
- Dewis tarw
- Iechyd y Fuches - lluniwch gynllun iechyd buches ac archwiliwch bob erthyliad a marw-enedigaeth i ganfod problemau fel Ysgothi Firaol Gwartheg (BVD), Leptosbirosis, Salmonela ayb
- Canfod buchod yn gofyn tarw a chydamseru
- Cadw golwg ar y tarw

TARW NEU DARW POTEL (AI)?

Tarwa naturiol sydd fwyaf cyffredin mewn buchesi eidion, ond mae gan darw potel sawl mantais :

- Mynediad i deirw o'r ansawdd gorau heb gostau uchel
- Mwy nag un brid ar gael yn rhwydd e.e. gwahanol fridiau i gynhyrchu heffrod amnewid neu ar gyfer lloia rhwydd mewn heffrod
- Dim cost na pherygl cadw tarw
- Ansawdd semen uchel yn gyson
- Bioddiogelwch uchel, yn cynnwys clefydau a drosglwyddir yn rhywiol
- Cyfle i gydamseru gofyn tarw a semenu

OND

- Gall canfod buchod yn gofyn tarw fod yn sialens (oni bai fod y gwartheg wedi eu hamseru'n ofalus)
- Llafur a thrafod ychwanegol – yn enwedig pan fydd y gwartheg allan yn pori
- Llwyddiant yn dibynnu ar gymhwyster y semenydd

TARGEDAU PERFFORMIAD ALLWEDDOL

Buchod a heffrod yn lloia	>94% o fuchod a heffrod yn cael tarw
Buchod yn lloia yn wythnosau 1-3 (y cyfnod lloia)	65% o fuchod a heffrod yn lloia

Buchod yn lloia yn wythnosau 4-6	25%
Buchod yn lloia yn wythnosau 7-9	7%

CRYNODEB

- CADWCH GYFNOD LLOIA TYNN - disgyblaeth dda wrth gyfyngu'r cyfnod tarwa, a didoli gwartheg sy' ddim yn beichiogi erbyn y dyddiad targed, yn ogystal â rheolaeth gyffredinol dda iawn
- CYNYDDWCH GYFRADDAU BEICHIOGI
- CWTOGWCH Y CYFNOD RHWNG LLOIA A BEICHIOGI - bydd patrwm lloia tynn yn golygu bod mwy o fuchod yn lloia yn rhan gyntaf y cyfnod lloia, ac felly'n mynd yn ôl yn gyflo'n gynt ac yn rhwyddach, a magu eu lloi. Bydd y lloi'n drymach adeg diddyfnu achos eu bod yn hŷn.
- DEWCH I DDEALL RHESYMAU DROS FFRWYTHLONDEB GWAEL - cyflwr gwael buwch neu heffer (neu darw) adeg tarwa, lloia anodd, clefydau mewn buchod, heffrod neu deirw a chanfod gwael buchod yn gofyn tarw.
- CANFOD BUCHOD YN GOFYN TARW YN WELL
- GWELLA FFRWYTHLONDEB BUCHOD – darganfod gwir reswm dros y broblem, gwella porthiant ar ôl lloia
- IECHYD Y FUCHES - lluniwch gynllun iechyd buches ac archwiliwch unrhyw erthyliad neu farw-enedigaeth i ganfod problemau fel Ysgothi Firaol Gwartheg (BVD), Leptosirosis, Salmonela ayyb
- GOSODWCH BRIF DARGEDAU PERFFORMIAD

FFYNONELLAU GWYBODAETH

EBLEX (2006) Beef Action for Profit 18 – Better Returns from Planned Weaning

EBLEX (2007) Beef Action for Profit – 19 – Better Returns from AI

HCC (2007) Gwneud y Gorau o'ch Gwartheg Sugno

HCC (2008) Bridio Buches Eidion Broffidiol